# Cynorthwyo disgyblion ag anghenion synhwyraidd a/neu gorfforol

## Trosolwg

**Ar gyfer pwy mae'r uned hon**

Mae'r uned hon ar gyfer y rhai sy'n rhoi cymorth i ddisgyblion sy'n dangos graddau o amhariad gweledol, corfforol a/neu ar y clyw.

**Am beth mae'r uned hon?**

Mae'r uned hon yn ymwneud â'r cymorth a roddir i ddisgyblion ag anghenion synhwyraidd a/neu gorfforol i'w galluogi i fanteisio'n llawn ar ddysgu mewn gweithgareddau unigol, grŵp a dosbarth, a darparu rhaglenni strwythuredig sy'n berthnasol i'w hanghenion cymorth ychwanegol.

**Mae'r uned hon yn cynnwys dwy elfen**

1. Galluogi disgyblion ag anghenion synhwyraidd a/neu gorfforol i fanteisio'n llawn ar ddysgu
2. Rhoi rhaglenni dysgu strwythuredig ar waith ar gyfer disgyblion ag anghenion synhwyraidd a/neu gorfforol.

## Meini prawf perfformiad

*Rhaid i chi allu:*

**Galluogi disgyblion ag anghenion synhwyraidd a/neu gorfforol i fanteisio'n llawn ar ddysgu**

P1 cael gwybodaeth gywir a chyfredol ynghylch:

P1.1 natur a lefel anghenion synhwyraidd a/neu gorfforol y disgybl

P1.2 anghenion dysgu'r disgybl

P1.3 y tasgau dysgu a'r gweithgareddau a gynlluniwyd

P2 addasu gosodiad yr amgylchedd dysgu a'r cyfarpar a ddefnyddir i alluogi'r disgybl sydd ag anghenion synhwyraidd a/neu gorfforol i gael cyfleoedd dysgu a manteisio'n llawn arnynt

P3 datblygu a defnyddio deunyddiau addysgu a dysgu yn y cyfrwng priodol fel sy'n ofynnol gan y disgybl

P4 annog y disgybl i gymryd rhan amlwg mewn tasgau a gweithgareddau dysgu sy'n cyd-fynd â'i lefel datblygiadol, ei alluoedd corfforol ac unrhyw gyflyrau meddygol

P5 gwneud yn siŵr bod unrhyw gyfarpar arbenigol yn cael ei ddefnyddio'n briodol fel bod y disgybl yn gyfforddus ac yn manteisio i'r eithaf ar gymryd rhan mewn tasgau a gweithgareddau dysgu

P6 rhoi cymorth i alluogi'r disgybl i gael ymdeimlad o gyflawniad ac annog annibyniaeth

P7 atgyfnerthu ymdrechion y disgybl mewn modd cadarnhaol i gymryd rhan mewn tasgau a gweithgareddau dysgu

P8 rhoi adborth i bobl berthnasol ar elfennau arwyddocaol o lefelau cymryd rhan a chynnydd y disgybl

**Rhoi rhaglenni dysgu strwythuredig ar waith ar gyfer disgyblion ag anghenion synhwyraidd a/neu gorfforol**

P9 gweithio gyda phobl berthnasol er mwyn gwneud y canlynol ar y cyd:

P9.1 cynllunio ar y rhaglen ddysgu strwythuredig a chytuno arno

P9.2 egluro a chadarnhau eich rôl a'ch cyfrifoldeb o ran rhoi'r rhaglen ar waith

P9.3 cytuno ar amcanion ar gyfer gweithgareddau strwythuredig sy'n cyflawni nodau'r rhaglen, a'u bod o fewn cyrraedd ac yn berthnasol i anghenion y disgybl

P10 gwneud yn siŵr bod amseriad a lleoliad y gweithgareddau strwythuredig:

P10.1 yn tarfu cyn lleied â phosibl ar y disgybl

P10.2 yn tarfu cyn lleied â phosibl ar y drefn arferol ac amserlenni

P10.3 ar adeg pan fo'r disgybl yn fwyaf tebygol o elwa ac yn cael y manteision mwyaf

P11 defnyddio cyfarpar a deunyddiau priodol ar gyfer y gweithgareddau fel y cytunwyd arnynt gyda'r bobl berthnasol

P12 rhoi anogaeth, adborth a chanmoliaeth i atgyfnerthu a chynnal ymdrechion y disgyblion

P13 rhoi’r lefel briodol o gymorth i alluogi'r disgybl i gael ymdeimlad o gyflawniad, cynnal hunan-barch a hunanhyder ac annog annibyniaeth

P14 rhoi gwybodaeth i'r bobl berthnasol am sut mae’r disgybl yn cymryd rhan, ei gynnydd a’i fwynhad o weithgareddau strwythuredig

## Gwybodaeth a dealltwriaeth

### *Mae angen i chi wybod a deall:*

K1 polisi'r ysgol ar addysg gynhwysol a chyfle cyfartal a'ch rôl a'ch cyfrifoldeb mewn perthynas â hyn

K2 egwyddorion sylfaenol deddfwriaeth gwahaniaethu ar sail anabledd, deddfwriaeth cydraddoldeb a hawliau, rheoleiddio a chodau ymarfer cyfredol

K3 rolau a chyfrifoldebau eraill, o fewn yr ysgol a'r tu allan iddi, sy'n cyfrannu at gynorthwyo disgyblion ag anghenion synhwyraidd a/neu gorfforol

K4 effaith anabledd sylfaenol ar ddatblygiad cymdeithasol, emosiynol a chorfforol disgyblion

K5 sut i ddewis a defnyddio deunyddiau addysgu a dysgu mewn cyfrwng priodol, e.e. diagramau cyffyrddol, Braille, meddalwedd gyfrifiadurol, symbolau a deunydd fideo wedi'i isdeitlo

K6 rheoli materion ffisegol disgyblion, gan gynnwys technegau codi addas, seddi priodol, goleuo a chyflyru acwstig

K7 y mathau o gyfarpar a thechnoleg arbenigol a ddefnyddir gan y disgyblion rydych chi'n gweithio gyda nhw, a sut mae'n helpu i oresgyn neu leihau effaith amhariad corfforol neu ar y synhwyrau

K8 sut i helpu disgyblion i gyfrannu at reoli eu cyfarpar arbenigol eu hunain

K9 effaith salwch cronig, poen a blinder ar ddysgu

K10 effaith unrhyw feddyginiaeth a gymerir gan y disgyblion yr ydych yn gweithio gyda nhw ar eu galluoedd gwybyddol a chorfforol, ymddygiad ac ymatebolrwydd emosiynol

K11 effaith cyflyrau hirsefydlog neu gynyddol ar emosiynau, dysgu, ymddygiad ac ansawdd bywyd disgyblion

K12 pwysigrwydd canmoliaeth ac anogaeth wrth helpu disgyblion i brofi cyflawniad ac annibyniaeth a sut i ddefnyddio'r rhain yn effeithiol

K13 sut i wneud y defnydd gorau posibl o swyddogaethau synhwyraidd a chorfforol gweddilliol

K14 yr ystod o anableddau corfforol, echddygol a/neu synhwyraidd y disgyblion yr ydych chi'n gweithio gyda nhw a'r mathau o weithgareddau strwythuredig sydd eu hangen i'w helpu i oresgyn neu leihau effaith y rhain

K15 sut i gynnal gweithgaredd strwythuredig ar gyfer grŵp

K16 yr angen am ymatebolrwydd a hyblygrwydd wrth roi gweithgareddau strwythuredig ar waith ar gyfer disgyblion ag anghenion synhwyraidd a/neu gorfforol

K17 technegau atgyfnerthu cadarnhaol, sut y dylid eu defnyddio a'u heffeithiau ar ddisgyblion

K18 yr angen am ymatebion addasol i ymddygiad a chyflawniadau'r disgybl a’r dulliau ar gyfer gwneud hynny

K19 angen disgybl am annibyniaeth, rheolaeth, her ac ymdeimlad o gyflawniad

K20 pwysigrwydd gwerthfawrogi disgybl a sut i gyfathrebu hyn

K21 pryd mae'n briodol ymyrryd mewn gweithgaredd disgybl a sut i wneud hyn mewn modd sy’n dangos sensitifrwydd a pharch tuag at y disgybl

K22 pwysigrwydd ymateb i'r disgybl a rhyngweithio ag ef, gan gynnwys cyfleu cynlluniau a bwriadau i'r disgybl, mewn ffordd briodol

K23 gweithdrefnau ysgolion ar gyfer cofnodi a rhannu gwybodaeth

## Geirfa